



TYWYDD EITHAFOL A THRYCHINEB NATURIOL MEWN DWY FARWNAD GAN IOLO GOCH

Topos cyffredin ym marwnadau Beirdd yr Uchelwyr yw'r camsyniad teimladol, fel y'i gelwir gan feirniaid modern, sef y syniad bod natur yn adlewyrchu neu'n rhannu galar dynol.¹ Oeri'r haul, niwl a thywyllwch, gwynt oer a glaw blin yw'r arwyddion arferol. Dyma ddarn nodweddiadol o farwnad gan Dudur Aled:

Och! roi'r floedd ddechreu'r flwyddyn,
Oeres haul o aros hyn;
Niwl yw'n tir, ni welant well,
Neu nos du'n Ynys Dywell;
Ni thywyn haul fyth yn hon,
Gan dewed gynau duon!²

Y mynegiant enwocaf o'r topos yw'r darn ym marwnad Gruffudd ab yr Ynad Coch i Lywelyn ap Gruffudd sy'n dechrau 'Poni welwch chwi hynt y gwynt a'r glaw?', lle mae'r arwyddion yn rhan o weledigaeth apocalyptaidd.³ Gan ein bod yn hen gyfarwydd â darllen pethau fel hyn mewn marwnadau mae'n hawdd iawn eu gweld fel dyfais lenyddol yn unig ac yn wedd ar ormodiaith gyffredinol y *genre*. Yr ydym wedi'n cyflyru i beidio â darllen disgrifiadau o dywydd garw yn llythrennol. Ond yn ddiweddar cafwyd diddordeb cynyddol mewn patrymau tywydd hanesyddol yn sgil yr ymwybyddiaeth o newid hinsawdd, ac y mae hynny wedi bod yn ysgogiad i edrych ar y dystiolaeth lenyddol o'r newydd. Yr oedd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn gyfnod o dywydd ansefydlog ac eithafol ar ôl cyfnod cymharol gynnes yr Oesoedd Canol ac ar drothwy'r cyfnod oerach a adwaenir fel 'Oes yr Iâ Fechan' yn y cyfnod modern cynnar, ac y mae rhai o gerddi Beirdd yr Uchelwyr yn ffynonellau gwerthfawr sy'n cofnodi'r eithafion tywydd ac ymateb pobl y cyfnod iddynt.⁴

Wrth olrhain datblygiad *genre* y farwnad y mae marwnadau Iolo Goch yn allweddol, ac y mae tywydd garw a thrychineb naturiol arall yn chwarae rhan ganolog mewn dwy ohonynt sy'n perthyn i gyfnod o ychydig wythnosau yn 1382, sef y marwnadau i feibion Tudur Fychan o Fôn ac i Ithel ap Robert, Archddiacon Llanelwy.⁵ Mae'r ddyfais lenyddol a'r ormodiaith yn ddigon amlwg yn y darn hwn o'r farwnad i feibion Tudur:

Yr ynys dywell, cell cerdd,
Y gelwid Môn wegilwerdd;
Llwyr y cafas, llawr cyfun,
Ei chyfenw a'i henw ei hun:

¹ Y mae'r ysgrif hon yn seiliedig ar bapur a draddodwyd mewn sesiwn ar dywydd hanesyddol yn 'Cynhadledd Edward Lhuyd', Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Aberystwyth, Gorffennaf 2009.

² T. Gwynn Jones (gol.), *Gwaith Tudur Aled* (Caerdydd, 1926), LXXV.5–10; cymh. *ibid.*, LXXI.53–68, LXXII.10, 'Byd heb haul yw bod heb hwn' LXXIV.42, 'Llanrhaeadr oll yn rhewynt' LXXX.33, LXXXIII.23–34. Hefyd, Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd, 1995), 76.27–30, 229.33–6, 232.27–30, 233.13; J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (goln), *Gwaith Guto'r Glyn*, ail argraffiad (Caerdydd, 1961), LXVIII.13–20.

³ Rhian M. Andrews et al. (goln), *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg* (Caerdydd, 1996), 36.63–70.

⁴ Gw. Barbara W. Tuchman, *A Distant Mirror: The Calamitous 14th Century* (Harmondsworth, 1979), t. 24, a Rudolf Brázdil et al., 'Historical Climatology in Europe – the State of the Art', *Climatic Change*, 70 (2005), tt. 390–1.

⁵ D. R. Johnston (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988), cerddi VI a XV. Sylwer na roddir unrhyw sylw i dywydd yn y ddwy farwnad gynharach a ganodd Iolo i uchelwyr, sef cerddi IV (Tudur Fychan) a VII (Syr Rhys ap Gruffudd).





Y dydd tecaf haf hinon
 Nos fyth fydd yn Ynys Fôn;
 Y nos ferraf o'r haf, hwy
 Fydd no'r nos hir o Fawddwy;
 Mae cwmwl fal mwg gwymon,
 Y mae clipsis fis ar Fôn;
 Nid diell yn tywyllu,
 Ni wyl dim mwy no niwl du,
 Eithr eilun oeth uthr olwg
 Megis edrych mewn drych drwg;
 Daearen oedd diaraul –
 Dihir yw hyn, duo'r haul –
 Y dydd mawr – oes duedd mwy? –
 Y doeth i gôr Dindaethwy.⁶

Hawdd gweld dylanwad y darn cofiadwy hwn ar gerddi diweddarach sy'n sôn am dywyllwch wedi ei achosi gan ddillad galar, megis marwnad Guto'r Glyn i'r Abad Rhys.⁷ Ond camgymeriad fyddai tybio gan hynny mai dyfais lenyddol yn unig sydd yma. Sonrir yn y pedair llinell olaf uchod am dduo'r haul ar ddiwrnod penodol, ac o gyfosod y ddwy farwnad dan sylw gellir gweld eu bod yn ôl pob tebyg yn cyfeirio at yr un tywydd eithriadol, a bod y bardd yn defnyddio hyn i greu awyrgylch arbennig. Yn ffodus y mae modd dyddio'r digwyddiadau perthnasol yn bur fanwl a thrwy hynny gellir gweld pa mor drawmatig oedd y cyfnod byr hwn yn mywyd y bardd.

Y gynharaf o'r ddwy farwnad yw'r un i feibion Tudur Fychan. Er bod y gerdd yn sôn am Ednyfed a Goronwy, mae'n amlwg bod Ednyfed wedi marw ychydig cyn ei frawd, a bod y gerdd yn ymateb i farwolaeth annhymig Goronwy yn benodol. Bu Goronwy ap Tudur farw drwy fodd yn Swydd Gaint ar ddydd Sadwrn, 22 Mawrth 1382.⁸ Goroesodd cynifer â chwe marwnad iddo gan bump o feirdd, sef awdl a chyfres o englynion gan Gruffudd ap Maredudd,⁹ awdl gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen,¹⁰ darn o gerdd gan Risierdyn,¹¹ cywydd gan Gruffudd Gweflyn,¹² a'r cywydd dan sylw gan Iolo Goch. Ni ellid disgwyl cael llawer o fanylion am amgylchiadau'r farwolaeth yn y cerddi, ond mae'r beirdd yn gytûn mai boddi a wnaeth, ac awgryma'r ymadrodd 'dan lifddyfredd' yn awdl Gruffudd ap Maredudd iddo gael ei ddal mewn llifogydd (cymh. 'pwll trydwl troedig' yng nghywydd Iolo).¹³ Cwyna Llywelyn Goch am 'ddihinedd' Lloegr, sef tywydd gwael, sy'n awgrymu llifogydd wedi eu hachosi gan law trwm.¹⁴

⁶ *Gwaith Iolo Goch*, VI.43–60.

⁷ *Gwaith Guto'r Glyn*, XI.41–56 (sylwer ar y defnydd o'r gair *clipsys* yn ll. 56 yno ac yn *Gwaith Iolo Goch*, VI.52). Elfen arall yng nghywydd Iolo a ddylanwadodd ar un o farwnadau Guto yw'r cyfeiriad at y Tair Tynged sy'n pennu hyd einioes dyn (llinellau 73–8), gw. 'Marwnad Wiliam Herbart Iarll Penfro', *Gwaith Guto'r Glyn*, LIII.39–50.

⁸ Gw. A. H. Dodd a J. G. Williams (goln), *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the Late Glyn Roberts* (Cardiff, 1969), t. 200.

⁹ Barry J. Lewis (gol.), *Gwaith Gruffudd ap Maredudd I* (Aberystwyth, 2003), cerddi 6 a 7.

¹⁰ Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth, 1998), cerdd 5.

¹¹ Gw. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (goln), *Gwaith Sefnyn, Rhisierydyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch* (Aberystwyth, 1995), t. 49.

¹² Gw. A. Cynfael Lake, 'Marwnad Goronwy ap Tudur o Fôn', *Bwletin y Bwrdd Gwybodaau Celtaidd*, 39 (1992), 80–8.

¹³ *Gwaith Gruffudd ap Maredudd I*, 6.26; *Gwaith Iolo Goch*, VI.85 (cymh. 'pwll du' a 'dubwll' yn *Gwaith Gruffudd ap Maredudd I*, 7.44 a 51).

¹⁴ *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, 5.60



Nid yw'n hysbys pam yr oedd Goronwy yn Swydd Gaint yr adeg honno. Daliai nifer o swyddi gweinyddol yng Ngwynedd, ac efallai ei bod yn arwyddocaol ei fod newydd gael ei benodi'n gwnstabl Castell Biwmares, peth eithriadol iawn i Gymro yn y cyfnod hwnnw. Yn ôl Glyn Roberts, 'naturiol tybio mai gwasanaeth y goron a'i harweiniodd i Gaint'.¹⁵ Ar y llaw arall, efallai ei fod ar ei ffordd yn ôl o Ffrainc, lle'r oedd wedi cyflawni campau milwrol yn gynharach yn ei fywyd yn ôl y beirdd. Fodd bynnag, daethpwyd â chorff Goronwy yn ôl i Fôn i'w gladdu yn y Priordy Ffransisgaidd yn Llan-faes. Sonia Iolo am ei gludo 'ar elorwydd' o Lundain i Fôn, pellter o ryw 270 o filltiroedd o leiaf (gan ddibynnu ble yn union y digwyddodd yr anffawd yn Swydd Gaint). Byddai cludo corff ar siwrnai faith o'r fath yn dipyn o orchwyl, gan gofio bod cyflwr rhai o'r ffyrdd yn wael iawn, ond ar y llaw arall mae'n siŵr bod y cludwyr yn awyddus iawn i gael y corff yn ôl i'w gladdu mor fuan â phosibl, a diau fod rhai yng ngosgordd Goronwy yn gyfarwydd iawn â theithio brys ar orchwylion milwrol a gweinyddol. Nid afresymol fyddai tybio y gallent deithio hyd at bum milltir ar hugain y dydd, ac os felly byddai'r daith wedi cymryd ychydig llai na phythefnos iddynt.¹⁶ A chymryd iddynt gychwyn ddydd Sul, 23 Mawrth, byddent wedi cyrraedd Llan-faes tua'r ail neu'r trydydd o Ebrill. Ac y mae disgrifiad Iolo o dywydd y diwrnod 'y doeth i gôr Dindaethwy' yn cyd-daro â'r cyfeiriad at storm eithriadol dros yr un dyddiau yn y farwnad arall a ganodd tua'r un adeg.

Yr oedd Ithel ap Robert yn gaifn (trydydd cefnder) i Iolo Goch, a dengys y pedair cerdd a ganodd Iolo iddo fod cyfeillgarwch agos rhwng y bardd a'i noddwr yn ymestyn yn ôl i ddyddiau mebyd.¹⁷ Y mae'r farwnad hon yn gerdd fawreddog ac anghyffredin ar sawl cyfrif, yn fwyaf amlwg oherwydd ei hyd eithriadol, sef 146 o linellau. Ceir digon o wybodaeth ynddi i ddyddio'r farwolaeth yn bur fanwl, yn y llinellau hyn tua dechrau'r cywydd:

Tymestl a ddoeth, neud Diwmawrth,
 Dydd mawr rhwng diwedd y Mawrth
 Ac Ebrill, di-ennill ynn,
 Difiau bu dechrau dychryn
 Rhwng y dydd newydd a'r nos –
 Bychan a wŷyr ba achos;
 Mawr o wth, marw o Ithael
 Ap Robert, fab pert, fab hael.¹⁸

Sonnir yma am storm a ddechreuodd ddydd Mawrth, 1 Ebrill, a honno fel petai'n rhagargoel o farwolaeth Ithel a ddigwyddodd yn frawychus o sydyn fore Iau yr un wythnos. (Trwy ailadrodd y gair *rhwng* pwysleisir bod y rhain yn amserau ffiniol, y naill rhwng y ddau fis a'r llall rhwng y nos a'r dydd, a diau fod yma ymwybyddiaeth â'r syniad bod adegau trothwyol o'r fath yn beryglus.) Ymddengys i'r tywydd stormus barhau dros y tri diwrnod hyn, oherwydd cyfeirir ato eto yng nghyd-destun y farwolaeth. Honnir na fu erioed y fath storm o'r blaen, ac awgrymir bod y tywydd eithriadol yn cyfateb i faint y golled ddynol:

¹⁵ Glyn Roberts, 'Teulu Penmynydd', *Transactions of the Honourable Society of the Cymmrodorion* (1959), 18.

¹⁶ Gw. Margaret Wade Labarge, *Medieval Travellers: The Rich and Restless*, ail argraffiad (London, 2005), t. 19 ar gyflwm - der teithio yn y cyfnod, a tt. 232–48 ar gludo cyrff adref i'w claddu.

¹⁷ *Gwaith Iolo Goch*, cerddi XII-XV (sylwer yn arbennig ar XII.45–50). Am fwy o wybodaeth amdano gw. *ibid.*, t. 265, ac erthygl Dr Ann Parry Owen, 'Gramadeg Gwysanau', tt. 16, 22 uchod.

¹⁸ *Gwaith Iolo Goch*, XV.7–14.

Ni bu eto i'r bytwn
 Ynemor hael gan marw hwn.
 Gwae hwynt glêr mewn gwynt a glaw
 A'r ddaear wedy'r dduaw;
 Ni bu ar honno, cyd bo byr,
 Dymestl nac un ardymyr,
 Hyd heddiw, anwiw enwir,
 Gyfryw â hyn – gwae f'i îr hir!¹⁹

Dyma, ond odid, y tywydd garw y sonnir amdano wrth ddisgrifio'r diwrnod y cyrhaeddodd corff Goronwy yn ôl ym Môn, efallai ar yr un diwrnod ag y bu farw Ithel.

'Llyma Basg y mae llwm bardd' meddai Iolo ar ddechrau ei farwnad i feibion Tudur. Mae'n naturiol i ni gymryd mai Sul y Pasg ei hun a olygir, a oedd ar 6 Ebrill y flwyddyn honno, ychydig ddyddiau'n unig ar ôl i gorff Goronwy gyrraedd Môn. Mae lle i gredu bod beirdd weith-iau'n cyfansoddi marwnadau ar frys i'w datgan yn yr angladd, ac yn yr achos yma byddai Iolo wedi cael cyfle i weithio ar ei gerdd ar ôl iddo dderbyn y newyddion am y farwolaeth gan negesydd brys.²⁰ Nid yw'n amhosibl, felly, mai cerdd a ddatganwyd yn yr angladd rywbyrd yn ystod penwythnos y Pasg oedd hon. Ond gallai'r term 'Pasg' gyfeirio at y cyfnod o saith wythnos hyd at y Sulgwyn, ac y mae'n haws credu mai yn ystod y cyfnod hwnnw y cyfansoddodd Iolo ei farwnad, efallai ar gyfer gwasanaeth coffa neu wledd ymhen mis wedi'r angladd (tua dechrau Mai felly).²¹ Sylwer ar yr ymadrodd 'clipsis fis' yn llinell 52 sydd efallai'n cyfeirio at y cyfnod o alar yn dilyn yr angladd.

Bu farw Ithel ap Robert ddydd Iau, 3 Ebrill, ac felly gellid disgwyl y byddai'r angladd rywbyrd ar ôl y Pasg. Ni sonnir am yr ŵyl yn benodol yn y gerdd, ond fe fyddai'r Pasg yn berthnasol iawn i'r gyfatebiaeth ymhyly sydd rhwng Ithel a Christ. 'Difiau bu dechrau dychryn' yw'r awgrym cyntaf o gyfatebiaeth, gan y byddai hynny'n debyg o ddwyn i gof ddydd Iau Cablyd, a daw'r gyfatebiaeth yn eglur wedyn yn ail ran y cywydd lle sonnir am dderbyn enaid Ithel yn syth i'r nefoedd yn yr un modd ag y derbyniwyd Crist ar ôl iddo ysbeilio uffern:

Anfon engylion yng ngŵyl
 I'w gyrchu, fwya' gorchwyl,
 Mae Duw gwyn, amodig oedd,
 Er moliant i'r fil filioedd,
 Mal y gwnaeth, amlwg o nef,
 Duw, da oedd, wedi dioddef,
 Pan ddarfu, ddirfawr euwag,
 Ysbeilio uffern, wern wag,
 A chrynu – och o'r annwyd –
 O'r ddaear lydan lân lwyd.²²

Ar ôl ymdrin â thynged yr enaid, troir at gladdedigaeth y corff. Gan fod y cywydd yn cynnwys disgrifiad helaeth o'r angladd mae'n amlwg ei fod wedi ei gyfansoddi beth amser wedi hynny. Fel y nodwyd eisoes, yr oedd yn arferol i'r beirdd gyflwyno eu marwnadau mewn

¹⁹ *Gwaith Iolo Goch*, XV.31–6.

²⁰ Gw. Huw Meirion Edwards, 'Dwyn Marwnadau Adref', *Llên Cymru*, 23 (2000), 33–4.

²¹ *Ibid.*, 21 lle dyfynnir tystiolaeth George Owen Harry sy'n sôn am feirdd yn paratoi eu marwnadau 'that day moneth that the buriall was'.

²² *Gwaith Iolo Goch*, XV.37–46.

gwasanaeth coffa i'r ymadawedig a gynhelid fis ar ôl yr angladd, a dyna a wnaethpwyd efallai yn achos y farwnad i feibion Tudur.²³ Ond ceir tystiolaeth yn yr achos hwn sy'n dangos na chwblhawyd y farwnad tan o leiaf saith wythnos ar ôl y farwolaeth (ac o ystyried hyd y gerdd nid yw hynny'n syndod). Cyfeirir yn llinellau cyntaf y gerdd at ddaeargryn a oedd newydd ddigwydd:

Eres y torres terra
Yr awr hon planhigion pla,
Ac eres y mag orofn
Arni, bellen ddefni ddofn;
Mae achreth, oergreth ergryd,
Yr acses, crynwres y cryd.²⁴

Dychwelwn eto at gystrawen a delweddaeth y darn dwys hwn, ond y mae ergyd y llinell gyntaf yn gwbl ddigamsyniol, ac felly hefyd y cyfeiriad arall at yr un peth tua diwedd y gerdd:

Hysbys ymhob llys a llan
Dorri'r ddaear yn deirran.²⁵

Dyma'r daeargryn sylweddol a ddigwyddodd ar 21 Mai 1382. Yr oedd canolbwynt y daeargryn rywle o dan y môr rhwng Lloegr a Fflandrys, a theimlid ei effeithiau fwyaf yn ne-ddwyrain Lloegr.²⁶ Cafwyd difrod i Eglwys Gadeiriol Caer-gaint a nifer o adeiladau eraill yr ardal, ac i longau mewn porthladdoedd. Dyma benillion o gerdd Saesneg gyfoes sy'n cynnwys disgrifiad o effeithiau'r daeargryn:

And also, whon þis eorþe qwok,
Was non so proud, he nas a-gast,
And al his Iolite for-sok,
And þought on god whil þat hit last;
And alsone as hit was ouer-past
Men wox as vuel as þei dude are.
Vche mon in his herte may cast,
Þis was a warnyng to be ware.

For-soþe, þis was a lord to drede,
So sodeynly mad Mon agast;
Of gold & seluer þei tok non hede,
But out of her houses ful sone þei past.
Chaumbres, chymeneys, al to-brast,
Chirches and castelles foule gon fare;
Pinacles, steples, to ground hit cast;
And al was for warnyng to be ware.

²³ Gw. nodyn 21 uchod.

²⁴ *Gwaith Iolo Goch*, XV.1–6.

²⁵ *Ibid.*, XV.123–4.

²⁶ Ceir gwybodaeth am y daeargryn ar wefan y British Geological Survey, www.quakes.bgs.ac.uk/earthquakes/historical/historical_listing.htm (cyrchwyd Hydref 2009). Dyma'r farn ar faint y digwyddiad: 'The extent to which the earthquake was felt north and west of London (where the intensity was probably 6 MSK) is unknown but was probably extensive, and the magnitude of the earthquake probably exceeded 5½ ML.' Gw. hefyd <http://www.geologyshop.co.uk/ukequakes.htm> (cyrchwyd Hydref 2009), lle dywedir: 'Various contemporary chronicles reported effects in England, such as severe shaking of trees, houses, churches, towers and castles, and panic among the population.'



Þe Meuyng of þis eorþe, I-wis,
 Ðat schulde bi cuynde be ferm & stabele,
 A pure verrey toknyng hit is,
 Þat Mennes hertes ben chaungable;
 And þat to falsed þei ben most Abul,
 For withgood feiþ wol we not fare.
 Leef hit wel wiþ-outen fabel,
 Þis was a warnyng to be ware.

Þe Rysing of þe comuynes in londe,
 Þe Pestilens, and þe eorþe-quake –
 Þeose þreo þinges, I vnderstonde,
 Beo-tokenes þe grete vengauce & wrake
 Ðat schulde falle for synnes sake,
 As þis Clerkes conne de-clare.
 Nou may we chese to leue or take,
 For warnyng haue we to ben ware.²⁷

Yn ôl y dehongliad hwn yr oedd y daeargryn yn un o dri arwydd a rybuddiai am ddialledd Duw i ddod, gyda'r pla a Gwrthryfel y Werin a ddigwyddodd y flwyddyn flaenorol. Mae dylanwad y tri pheth hyn i'w weld ar waith Iolo Goch, ond gwahanol oedd ei ddehongliad ef o'u harwyddocâd.²⁸

Yn ogystal â'r ddau gyfeiriad ecblyg ato yn llinellau 1 a 123–4, y mae'r daeargryn yn hydreiddio'r farwnad i Ithel ap Robert ar lefel ffigurol. Dyfynnwyd eisoes y darn yn llinellau 45–6 sy'n cyfeirio at y daeargryn a ddigwyddodd adeg y croeshoeliad (gw. Matthew 27.51–4). Er bod y daeargryn ym Mhrydain wedi digwydd saith wythnos ar ôl marwolaeth Ithel, y mae'r cyfochredd yn fodd i gryfhau'r gyfatebiaeth rhwng Ithel a Christ. Sonrir eto yn adran nesaf y gerdd am y ddaear yn crynu adeg yr angladd, ac awgrymir bod y cryndod wedi ei achosi gan y torfeydd, a bod y rheini hefyd wedi achosi'r tywydd gwael. Y mae'r frawddeg gwmpasog sydd mor nodweddiadol o arddull Iolo Goch yn fodd yma i dynnu at ei gilydd dywydd garw ddechrau Ebrill a daeargryn mis Mai:

Ni ddoeth i gyd o ddoethion
 Y sawl yn yr ynys hon;
 Hyn a wnaeth yr hin yn oer,
 Cael adlaw o'r caledloer;
 Y ddaear ddu, dyrru dwst,
 Yn crynu – faint fu'r crynwst! –
 Mam pob cnwd brwd brigogffrwyth,
 Mantell oer, rhag maint ei llwyth,
 Ban gychwynnwyd, breuddwyd brau,
 I'r eglwys, lân aroglau,
 O Goedymynydd ag ef . . .²⁹

²⁷ 'Verses on the Earthquake of 1382', yn Carleton Brown (gol.), *Religious Lyrics of the Fourteenth Century*, ail argraffiad (Oxford, 1957), tt. 187–8 (cerdd 113, llinellau 33–64). Diddorol yw nodi bod copi o'r gerdd i'w gael yn llawysgrif Peniarth 395 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, llawysgrif o'r 15g. y mae iddi gysylltiadau â sir Ddinbych.

²⁸ Trafodais 'Cywydd y Llafurwr' (*Gwaith Iolo Goch*, cerdd XXVIII) yng nghyd-destun 'Gwrthryfel y Werin' 1381 (er na ellir dyddio'r gerdd yn benodol i'r flwyddyn honno), gw. David Johnston, 'Iolo Goch and the English: Welsh Poetry and Politics in the Fourteenth Century', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 12 (Winter 1986), 73–98 (94–6).

²⁹ *Gwaith Iolo Goch*, XV.59–69.



Tybed mewn gwirionedd a gyfansoddodd Iolo'r darn hwnnw yn wreiddiol cyn y daeargryn heb y trydydd cwpled a'r pedwerydd, gan briodoli'r tywydd garw i dorfeydd yr angladd, a'i ailwampio wedyn i gynnwys cyfeiriad at gryndod y ddaear?

Digwydd y gair thematig *crynu* unwaith eto yn uchafbwynt y disgrifiad o'r angladd ar ôl i bawb wasgu i mewn i'r eglwys a llenwi'r lle â'u dolefain. Y mae'r ddelwedd drawiadol o'r eglwys yn siglo fel llong yn crynu ar y môr yn dwyn i gof y ffaith bod y daeargryn wedi achosi difrod i longau ar arfordir de-ddwyrain Lloegr:

Siglo a wnaî'r groes eglwys
Gan y godwrdd a'r dwrdd dwys
Fal llong eang wrth angor,
Crin fydd yn crynu ar fôr.³⁰

Y defnydd mwyaf ysbrydoledig o'r daeargryn yw'r un yn llinellau agoriadol y gerdd. Dyfynnwyd y rhain eisoes fel tystiolaeth am y daeargryn; yn awr y mae angen craffu arnynt eto er mwyn gwerthfawrogi'r ddelweddaeth gyfoethog:

Eres y torres terra
Yr awr hon planhigion pla,
Ac eres y mag orofn
Arni, bellen ddefni ddofn;
Mae achreth, oergreth ergryd,
Yr acses, crynwres y cryd.³¹

Y peth cyntaf sy'n haeddu sylw yw'r gair Lladin *terra* am y ddaear. Gan fod Ithel ap Robert yn archddiacon yn esgobaeth Llanelwy byddai cynulleidfa'r gerdd hon yn cynnwys llawer o wŷr llên a fyddai'n gwerthfawrogi'r fath ieithwedd ddysgedig. Ond y gynghanedd â'r ferf *torri* yw'r rheswm pennaf dros ddefnyddio *terra* yma er mwyn cyfleu effaith y daeargryn. Ac o ychwanegu'r terfyniad trydydd unigol gorffennol *-es* i'r ferf digon rhwydd oedd llunio cynghanedd sain trwy ddechrau ag *eres*, 'rhyfeddol', gair priodol i osod cywair ar gyfer cerdd am ddigwyddiadau eithriadol drawmatig.³²

Gellid meddwl wrth glywed y llinell gyntaf ar ei phen ei hun fod *torres* yn ferf gyflawn, ond daw'n amlwg erbyn diwedd y cwpled mai 'planhigion pla' a dorrodd y ddaear. Dyma gyswllt, felly, rhwng y daeargryn a llediad yr haint a laddodd Ithel. Ers dechrau'r Farwolaeth Fawr yn 1347–8 ystyrir bod daeargrynfeydd yn gallu achosi pla trwy ollwng mygdarth gwenwynig o berfeddion y ddaear.³³ Diddorol yw nodi fod y gerdd Saesneg am y daeargryn y dyfynnwyd ohoni uchod yn cyplysu 'Pe Pestilens, and þe eorþe-quake' fel dau o'r arwyddion o ddialedd Duw am bechod.

Byddai'r gair *pla* yn ddigon i godi arswyd ar bobl a fuasai fyw trwy gyfnod y Farwolaeth Fawr o ddiwedd y 1340au ymlaen, ond nid yw'n glir beth yn union a olygai Iolo wrth y term yma, ac y mae haneswyr yn dal i anghytuno ynghylch union natur y pla a laddodd gyfran fawr o boblogaeth Ewrop yn ystod y cyfnod hwnnw.³⁴ Ni roddir disgrifiad uniongyrchol o symp-

³⁰ *Gwaith Iolo Goch*, XV.113–16.

³¹ *Ibid.*, XV.1–6.

³² Cymh. 'Oedd eres ei ddaearu' ym 'Marwnad Ithel Ddu', *Gwaith Iolo Goch*, XXIII.47.

³³ Gw. Philip Ziegler, *The Black Death* (Harmondsworth, 1982), t. 22, a Tuchman, *A Distant Mirror*, tt. 96 a 101.

³⁴ Crynhoir y dadleuon gan Barry J. Lewis yn ei nodiadau i'r gerdd 'Haint y Nodau', yn *Gwaith Madog Benfras ac Eraill o Feirdd y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg* (Aberystwyth, 2007), tt. 175–7. Awgrymais yn *Gwaith Iolo Goch*, t. 265 fod y symptomau a ddisgrifir ym 'Marwnad Ithel ap Robert' yn cyfateb i'r pla niwmonig, ond mewn gwirionedd maent yn

tomau'r clefyd a laddodd Ithel ap Robert, ond fe gyfleir argraff anuniongyrchol ohonynt trwy eu trosglwyddo i'r ddaear ei hun.

Sylwer mai *pellen* ('pelen') yw'r trosiad am y ddaear (*terra*) yn y sangiad yn llinell 4. Yr oedd y ffaith bod y byd yn grwn yn ddigon hysbys yn yr Oesoedd Canol, ac y mae'n allweddol yma ar gyfer trosiad canolog y llinellau hyn, sef bod y byd fel pen dyn claf sy'n dioddef o dwymyn (*acses*). Seilir y gyfatebiaeth ar ddwy nodwedd, sef yn gyntaf y glaw (*defni*) sydd fel chwys, ac yn ail y daeargryn sydd fel y cryndod a achosir gan dwymyn.³⁵ Ceir yma gwllwm o eiriau cyfystyr sydd oll yn golygu 'cryndod', 'twymyn' a 'dychryn', sef *creth* (ail elfen *oer-greth*) ac *achreth*, *cryd* ac *ergryd*. Ac yn y gair cyfansawdd *crynwres*, a fathwyd gan Iolo o bosibl ar gyfer y darn hwn,³⁶ ceir bôn y ferf sylfaenol sy'n cyfleu symudiad y ddaear mewn daeargryn. Fe ymddengys mai *crynfa* oedd y term arferol mewn Cymraeg Canol am ddaeargryn,³⁷ ac felly byddai elfen gyntaf *crynwres* yn cydio wrth y cyfeiriad penodol yn llinell gyntaf y gerdd ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer y tair enghraifft o'r ferf *crynu* ei hun yn llinellau 45, 64 a 116. Sylwer bod *crynu* yn llinell 64 yn cynganeddu â *crynwst*, gair arall a fathwyd yn unswydd gan Iolo efallai,³⁸ a hynny ar ddelw *crydwst* sy'n digwydd yn llinell 80.³⁹ Ail elfen y ddau air yw *gwst* 'clefyd, helbul', ac felly cynhelir thema salwch trwy'r gerdd.

Y mae ein gwybodaeth fanwl am ddyddiadau perthnasol yn caniatáu inni ddyfalu ynghylch proses cyfansoddi'r gerdd hon. Gan ei bod mor faith, y tebyg yw y byddai Iolo wedi ei chyfansoddi mewn rhannau lled annibynnol yn ystod y ddau fis ar ôl marwolaeth Ithel. Rhesymol yw tybio iddo fynd ati i lunio'r clod i Ithel a'r disgrifiad o'r angladd, ac efallai'r diweddglo hefyd, yn ystod mis Ebrill a wythnosau cyntaf Mai. Digon posibl bod ganddo farwnad weddol orffenedig cyn i'r daeargryn ddigwydd ar 21 Mai, a honno'n barod ar gyfer rhyw wasanaeth coffa, adeg y Sulgwyn dyweder. Os felly, rhaid ei fod wedi ailwampio ei gerdd yn sgil y daeargryn gan ychwanegu llinellau yma a thraw, fel yr awgrymwyd eisoes. Hawdd yw gweld fel y gallasai fod wedi ychwanegu'r chwe llinell gyntaf ar ôl cyfansoddi gweddill y gerdd er mwyn rhoi agoriad trawiadol iddi.

O'i gosod mor amrwd â hynny y mae proses cyfansoddi'r gerdd fawr hon yn swnio'n annheilwng o fecanyddol. Cuddiad cryfder y gerdd yw'r modd y llwyddir i gydasio'r gwa-hanol elfennau ynddi. Yr oedd y storm adeg y farwolaeth eisoes yn ddolen gyswllt rhwng y bywyd dynol a byd natur yn y gerdd, fel y buasai yn y farwnad a gyfansoddodd Iolo i Goronwy ychydig wythnosau'n gynharach. Tybed hefyd a oedd thema ganolog y cryndod eisoes ym meddwl y bardd cyn i'r daeargryn ddigwydd, yn sgil natur y salwch a laddodd Ithel? Os felly,

rhy amhenodol ac nid oes sicrwydd bod y math yna o bla yn bodoli ym Mhrydain yn y cyfnod hwn, gw. Susan Scott and Christopher J. Duncan, *Biology of Plagues: Evidence from Historical Populations* (Cambridge, 2001). Gallai'r clefyd dan sylw fod yn unrhyw fath o dwymyn ffyrnig, ond y peth arwyddocaol yw bod Iolo'n ei weld yn achos o'r pla.

³⁵ Diddorol, o gofio delwedd y llong yn crynu ar fôr yn llau. 115–16, yw nodi'r enghraifft arall o'r gair *achreth* yng ngwaith Iolo Goch yn y cywydd dychan i'r llong, 'oer ei hachreth', *Gwaith Iolo Goch*, XXXIII.14.

³⁶ Hon yw'r unig enghraifft a nodir yn *GPC*, 625.

³⁷ Gw. *GPC*, 623 a sylwer yn arbennig ar y dyfyniad o fersiwn Peniarth 20 o Frut y Tywysogion lle mae '[c]rynnua mawr yny ddayar' yn cyfateb i'r Lladin *terrae motus ingens*. Yr enghraifft gynharaf o'r gair *daeargryn* a nodir yn *GPC*, 877 yw'r un o Destament Newydd William Salesbury, ond fe geir enghraifft gynharach mewn testun rhyddiaith am yr arwyddion cyn Dydd y Farn yn Llansteffan 2, llawysgrif o ail hanner y 15g., gw. Thomas Jones, 'Yr Anghrist a Dydd y Farn', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 13 (1948–50), 179: 'Y nawuet dyd y byd daeargryn mor aruthur ac na bu eirioet y keffelyb kyn hynny.' Mewn fersiwn o'r un testun o ddechrau'r 15g. yr ymadrodd cyfatebol yw 'crynuau dayar', gw. Thomas Powell, 'A Description of the Day of Judgment', *Y Cymmrodor*, 4 (1881), 116.

³⁸ Hon yw'r unig enghraifft o'r gair a nodir yn *GPC*, 625.

³⁹ Ceir *crydwst* yn cyfateb i'r Lladin *tremor* mewn disgrifiad o uffern yn Henry Lewis a P. Diverres (goln), *Delw'r Byd* (Caerdydd, 1928), t. 51, ll. 10.

byddai'r daeargryn wedi cynnig cyfle i gysylltu microcosm y bod dynol a macrocosm y byd mawr.

Os oedd y byd ei hun yn sâl, yna mae'n dilyn bod ei einioes yn dirwyn i ben. Cred gyffredin yn yr Oesoedd Canol diweddar oedd bod diwedd y byd a'r Farn Fawr yn agos iawn, ac ystyrir trychinebau fel pla, daeargryn a thywydd eithriadol yn arwyddion a ategai'r gred honno.⁴⁰ Daeargryn oedd arwydd yr wythfed dydd yn ôl traddodiad y Pymtheg Arwydd cyn Dydd y Farn, traddodiad adnabyddus iawn yn yr Oesoedd Canol sy'n ymddangos mewn barddoniaeth a rhyddiaith yn y Gymraeg, gan gynnwys cerdd o'r ddeuddegfed ganrif gan Lywelyn Fardd a chyfres o englynion a briodolir i Ddafydd Nanmor.⁴¹

Ar un olwg mae adran olaf y cywydd hwn yn cynrychioli'r cam olaf angenrheidiol yn y broses o alaru, sef yr ymdawelu sy'n deillio o gysur Cristnogol ynghylch tynged yr enaid a welir yn ei ogoniant ar ben Mynydd yr Olewydd, lleoliad y Farn yn ôl traddodiad yr Oesoedd Canol. Ond ar olwg arall gellir gweld hyn fel pen-draw anochel y drychineb a ddisgrifiwyd yn llinellau agoriadol y gerdd. Byddai'r cyswllt rhwng daeargryn a Dydd y Farn yn amlwg i'r gynulleidfa o'r cychwyn cyntaf. Yn ei gywydd crefyddol 'Y Deuddeg Apostol a'r Farn' rhydd Iolo ddarlun brawychus o Ddydd y Farn,⁴² ond yma try braw'r daeargryn yn sicrwydd tawel sy'n seiliedig ar ffydd yn nheilyngdod ysbrydol y gŵr eglwysig:

Ni bydd ar ben Mynydd maith
Olifer, porffer perffraith,
Iôn archdiagon degach
Nag fydd Ithel uchel ach.⁴³

Y mae'r sylw i degwch Ithel ar Ddydd y Farn yn adlewyrchu cred gyffredin y cyfnod y byddai pawb yn atgyfodi fel yr oeddent yn dair ar ddeg ar hugain oed, sef oedran Crist pan fu farw ar y groes. Pwysleisiodd Iolo harddwch Ithel yn ei gerddi eraill iddo, gan ei gymharu â'r archangylion Mihangel ac Uriel (am fod ganddo wallt melyn mae'n debyg),⁴⁴ ac fe dâl cofio am swyddogaeth yr archangylion ar Ddydd y Farn 'yn dethol y rhai doethion'.⁴⁵ Y mae'r diweddglu hwn yn foddhaol iawn yn seicolegol am fod y darlun o Ithel yn ei gorffolaeth hardd yn fodd i ddileu'r argraff ddychrynlyd o salwch ar ddechrau'r gerdd, ac yn dangos aduniad yr enaid a'r corff y gwelwyd eu gwahanu gan angau o fewn y gerdd.

Anaml iawn y gellir dyddio dwy gerdd o waith yr un bardd i gyfnod mor fyr. Mae'r achos hwn yn gyfle inni weld sut yr ymdopodd Iolo Goch â'r ergyd o golli dau noddwr blaenllaw o fewn llai na phythefnos ac o dan amgylchiadau brawychus. Ni allwn ond dyfalu ynghylch ei ymateb personol, ond erys y ddwy farwnad yn dystion i'w ymateb celfyddydol a chrefyddol. Rhaid bod y ddwy'n ymffurfio yn ei feddwl yn ystod mis Ebrill a dechrau Mai. Yn y lle cyntaf defnyddiodd y storm i roi gwedd wrthrychol ar y trawma yn y ddwy gerdd. Y tebyg yw iddo gynllunio ei farwnad i Ithel ar raddfa fwy o'r cychwyn, oherwydd y berthynas deuluol yn un peth, ond hefyd efallai mewn ymateb i bwysau cynyddol y galar. Daeth y daeargryn wedyn yn

⁴⁰ Gw. Tuchman, *A Distant Mirror*, tt. 245 a 588.

⁴¹ Gw. Kathleen Anne Bramley et al. (goln), *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif* (Caerdydd, 1994), 5.33–6, a'r cyfeiriadau t. 71; Thomas Roberts ac Ifor Williams (goln), *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Cardiff and London, 1923), XXXVI.29–32. Gw. hefyd y dyfyniad o destun rhyddiaith yn nodyn 36 uchod.

⁴² *Gwaith Iolo Goch*, cerdd XXVII. Sylwer yn arbennig ar linell 100 lle digwydd y ferf sy'n *leitmotif* ym marwnad Ithel ap Robert, 'Ac yno y crŷn pob dyn doeth'.

⁴³ *Gwaith Iolo Goch*, XV.143–6.

⁴⁴ *Ibid.*, XII.40 a 53, XIII.85–6; cymh. XV.23 (gw. nodyn t. 268) a 57.

⁴⁵ *Ibid.*, XXVII.106.



ben ar y cwbl o ran y trawma, ond yn ysgogiad cynhyrfus i ddychymyg y bardd. Darparodd ddelwedd ar gyfer y salwch a laddodd Ithel a'r ysgytwad o'i golli, ond ymgysylltodd hefyd â'r cysur crefyddol a ddeilliai o estyn y perspectif amseryddol, yn ôl at y Croeshoeliad ac ymlaen at Ddydd y Farn. Y mae'r ddwy gerdd gyda'i gilydd yn hynod werthfawr fel cofnod dramatig o brofiad dwys ac fel mynegiant croyw o rym cynhaliol y ffydd Gristnogol.

Aberystwyth

DAFYDD JOHNSTON

